**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o**
**Gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a Gynhaliwyd ar**
**09 Gorffennaf 2024 am 09:30, yn 3.3 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Drafft

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Dirprwy Gyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risgiau (ar gyfer eitem 3.3*; cyrhaeddodd am 11:00, gadawodd am 11:19) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Joe O'Brien | (JOB) | Arweinydd Systemau a Dadansoddeg y Gweithlu (ar gyfer eitem 3.2; cyrhaeddodd am 10:12, gadawodd 10:50) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trefniadau Llywodraethu Integredig |
| Ruth Tofton | (RT) | Rheolwr Busnes / Datblygu'r Gweithlu (ar gyfer eitem 5.1; cyrhaeddodd am 11:50, gadawodd am 12:02) |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Brett Wrightbrook | (BW) | Rheolwr Llesiant ac Ymgysylltu (ar gyfer eitem 3.1) |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y staff |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Ffion Lloyd | (FL) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30

| | |
|---|---|
| **PODC 1/2024.07.09** | **Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |

| | |
|---|---|
| Agorodd KY y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.<br><br>**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Hydref 2024.<br><br>Nodwyd **yr ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| **PODC 2/2024.07.09** | **Datgan Buddiannau** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau. | |
| **PODC 3/2024.07.09** | **Eitemau Er Sicrwydd** |
| **PODC 3.1/. 2024.07.09** | **Canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru** |
| Rhoddodd BW drosolwg o ganlyniadau arolwg staff 2023 a oedd yn cwmpasu'r dull tri cham a dadansoddiad.<br><br>Roedd camau'r gwaith hwn yn cynnwys:<br>• Gwaith Meincnodi Cenedlaethol (wedi'i gwblhau)<br>• Gwerthusiad ICC (ar y gweill)<br>• Cynllun Datblygu (cam nesaf)<br><br>Nododd BW fod 53.8% o'r staff wedi ymateb i arolwg 2024, a gwelwyd cyfrannau uchel yn cymryd rhan yn y gweithdai ac yn darllen negeseuon ar y fewnrwyd. Nodwyd bod mynediad at dechnoleg yn broblem felly anfonwyd dyfeisiau llechen i labordai.<br><br>Nododd BW fod y gwerthusiad o'r arolwg wedi'i gyflwyno i gydweithwyr yn yr adrannau Datblygu Sefydliadol a Phobl/Data, Gwybodaeth ac Ymchwil, a gynhyrchodd ganlyniadau tebyg ac argymhellion ar gyfer gwelliannau. Byddai'r Tîm Gweithredol Busnes yn edrych ar y ddogfen werthuso ar 10 Gorffennaf i'w thrafod. Nodwyd hefyd bod data monitro amrywiaeth wedi'u casglu'n ddiweddar. Roedd gwaith i'w wneud gyda'r adran Gyfathrebu i ddechrau paratoi ar gyfer rhyddhau arolwg staff 2024 tua mis Medi/Hydref 2024.<br><br>Nododd RA y cysylltiadau â'r ymrwymiad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i ddatblygu dangosfwrdd ymgysylltu er mwyn olrhain cynnydd, a chynllunio gwaith ar ôl yr arolwg gan ddefnyddio model diwylliant Synergisteg Dynol OCI.<br><br>Cwestiynodd y Pwyllgor y cyfraddau ymateb isel ar gyfer meysydd fel Diogelu Iechyd a Sgrinio gan ofyn a oedd ymateb sy'n canolbwyntio ar y rhain yn cael ei roi ar waith. Tynnodd BW sylw at y gwaith a wnaed ar gynnal ymweliadau â labordai i gynnwys mwy o rolau nad ydynt yn swyddi desg a chynyddu ymgysylltiad yn y meysydd hynny, ac y byddai'r canfyddiadau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r arolwg staff nesaf. Tynnodd MB sylw at waith a wnaed gyda darparwr allanol yn y maes Diogelu Iechyd a Sgrinio yn edrych ar gyfathrebu ac ymgysylltu mewnol, ac roedd yr adroddiad wedi darparu ystod | |

Heb eu Gadarnhau

o argymhellion ar gyfer y cyfarwyddiaethau Diogelu Iechyd a Chyfathrebu y gellid eu hymgorffori mewn arolygon yn y dyfodol.

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd gwestiynu'r diffyg cwestiynau ar amrywiaeth yn yr arolwg, yn ogystal â'r sgôr isel a roddwyd mewn perthynas â staff yn teimlo y gallant godi eu llais a sut y byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu rhannu. Rhoddodd RA sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai data amrywiaeth a chynhwysiant gan AaGIC yn cael eu hadolygu cyn gynted â phosibl, ac y byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu rhannu â rhwydweithiau staff a'r Fforwm Partneriaeth Lleol, ynghyd â gwaith ymgysylltu lleol arall. Nododd PV fod y gwaith a wnaed ar y rhaglen Codi Llais Heb Ofn yn gorgyffwrdd â'r arolwg sy'n cael ei gynnal ac felly efallai nad yw canlyniad yr arolwg yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed.

Diolchodd KY i BW am y diweddariad ac i'r holl staff a fu'n ymwneud â'r arolwg. Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod cynnydd yn parhau ar werthuso canlyniadau Arolwg Staff 2023 a nodi meysydd blaenoriaeth lefel uchel ar gyfer gwella.

| **PODC 3.2/. 2024.07.09** | **Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad/Y Gweithlu** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad.

Rhoddodd JOB ddiweddariad ar feysydd o'r Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad a gododd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl megis rhesymau anhysbys dros adael a chyfraddau salwch uwch yn rolau Bandiau 3 a 4. Nododd JOB fod grŵp mewnwelediad yr adran Datblygiad Sefydliadol a Phobl wedi'i sefydlu i ymgymryd â gwaith craffu manwl ar ddata perfformiad a chynhyrchu diweddariadau ac ymyriadau y gellid eu cyflwyno.

Soniodd JOB am y gwaith a wnaed i ddadansoddi'r rhesymau y tu ôl i pam mai 'arall/ddim yn hysbys' oedd un o'r ymatebion a ddewiswyd amlaf ar gyfer pam yr oedd staff yn dewis gadael yn ystod Ch4 2023/24. Roedd y camau a gymerwyd ar hyn yn cynnwys anfon e-bost at reolwyr llinell i esbonio pam yr oedd casglu'r data hyn yn bwysig, ac i gael adborth ar pam y dewiswyd y rheswm hwn. Roedd dadansoddiad cyfredol yn awgrymu bod problemau technegol gyda'r system yn broblem fawr, yn ogystal â'r ffaith nad oedd ymadawyr wedi rhoi rheswm a data'n cael eu mewnbynnu gan bobl nad ydynt yn rheolwyr llinell.

Holodd y Pwyllgor a ellid dadansoddi data ar resymau dros adael ochr yn ochr â data cyfweliadau ymadael er mwyn rhoi cipolwg pellach ar pam y gallai staff adael ac amlygu unrhyw broblemau mewnol. Dywedodd JOB wrth y Pwyllgor fod hyn eisoes yn cael ei wneud gan y grŵp mewnwelediad, ond byddai problemau'n ymwneud â chyfrinachedd a cholli manylion pan fyddai data'n cael ei fewnbynnu i'r system.

Rhoddodd JOB drosolwg hefyd o gamau cychwynnol yr ymchwil i gyfraddau uwch o absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer rolau bandiau 3 a 4 rhwng 1 Mehefin 2023 a 31 Mai 2024. Roedd data cyfredol yn awgrymu bod cyfraddau salwch yn uwch yn yr adran Diogelu Iechyd a Sgrinio, ac o fewn y gyfarwyddiaeth honno roeddent yn uwch mewn rolau yn y gweithle/rheng flaen. Byddai'r data hyn yn cael eu dadansoddi'n fanylach gan y grŵp mewnwelediad.

Heb eu Cadarnhau

Trafododd y Pwyllgor sut y gellid rhannu’r data hyn yn grwpiau oedran neu yn ôl rhywedd er mwyn pennu unrhyw faterion iechyd cysylltiedig, ac a ellid ymchwilio i faterion iechyd sy’n ymwneud â straen neu orbryder. Cadarnhaodd JOB y byddai'r grŵp mewnwelediad yn ymchwilio i resymau dros absenoldeb ac y gellid cynnwys proffiliau oedran/rhywedd. Cytunodd JOB i gyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ar ôl i'r dadansoddiad gael ei gwblhau.

**Camau Gweithredu: JOB**

Rhoddodd JOB drosolwg o’r cynnydd yng ngweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2024. Dangosodd y data hyn gynnydd o 25% yn nifer y staff ar y cyfnod hwnnw, a oedd yn cynnwys gostyngiad yn y niferoedd oherwydd i dimau iechyd cyhoeddus lleol symud o ofal Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Iechyd. Byddai'r data hyn yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Mewnwelediad i'w dadansoddi ymhellach.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r wybodaeth sydd yn y Dangosfyrddau ac o'r gwaith dadansoddi a monitro parhaus.

| | |
|---|---|
| **PODC 3.2.1/2024.07.09** | **Hyfforddiant Statudol a Gorfodol** |

Rhoddodd NL y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymateb i ymholiadau gan Bwyllgorau eraill i ystyried gwneud cyrsiau hyfforddi yn orfodol a pha mor aml y dylid eu cynnal. Y gofynion hyfforddiant penodol yr ymatebwyd iddynt oedd:

- Hyfforddiant ar Barhad Busnes
- Hyfforddiant Gwrth-dwyll
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Nododd NL, yn dilyn y drafodaeth fanwl yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ac adborth gan staff, mai'r ymateb oedd peidio ag ychwanegu modiwlau pellach ar hyn o bryd ac yn lle hynny edrych ar ddulliau eraill o ddosbarthu gwybodaeth angenrheidiol.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y cyngor gan y Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl mewn perthynas â hyfforddiant Statudol a Gorfodol, a chytunwyd i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, gan nodi’r rhesymeg a ddarparwyd dros beidio â gwneud y modiwlau hyfforddi'n orfodol.

| | |
|---|---|
| **PODC 3.3** | **Rheoli Risgiau** |
| **PODC 3.3.1/ 2024.07.09** | **Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol** |

Rhoddodd SS/DG ddiweddariad ar reoli risg strategol 4 a'r cofrestrau risgiau corfforaethol.

Tynnodd DG sylw at y ffaith y byddai’r adroddiad ar risgiau strategol yn cael ei gyflwyno mewn fformat diwygiedig mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a byddai’r adolygiad hwn yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Busnes a’r Bwrdd erbyn diwedd Gorffennaf 2024. Byddai'r fformat hwn yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad thematig o risgiau a defnyddio dull rheoli risgiau sy'n seiliedig ar fenter.

Heb eu Gadarnhau

Nododd DG er nad oedd y sgôr cyfredol ar gyfer risg strategol 4 wedi newid, roedd statws y duedd wedi'i farcio'n wyrdd oherwydd y cynnydd a wnaed. Tynnodd DG sylw hefyd at newidiadau i rai camau gweithredu cysylltiedig:

- Byddai 4.3/4.4 yn cael eu disodli gan gam gweithredu newydd sy'n nodi mesurau i olrhain cynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt a chreu dangosfwrdd i roi mewnwelediad a sicrwydd
- Camau gweithredu pellach ar gyfer 4.5 i ddatblygu dull strategol o ymgysylltu â chyflogeion
- Dau gam gweithredu pellach ar gyfer 4.6 i amlinellu swyddogaeth teuluoedd swyddi o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlu proses a fframwaith cynllunio'r gweithlu.

Rhoddodd DG y cyd-destun ynghylch risg strategol 4 i aelodau newydd y Pwyllgor.

Holodd y Pwyllgor a fyddai drafft o'r broses cynllunio'r gweithlu yn cael ei rannu gyda PODCOM i roi mewnbwn, nododd NL y gwaith a oedd ar y gweill ers recriwtio rheolwr Cynllunio'r Gweithlu a chadarnhaodd y byddai'r drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn iddo gael ei anfon i'w gymeradwyo.

**Camau Gweithredu: NL**

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Risgiau Strategol a chafodd **sicrwydd** bod Risgiau Strategol a Chorfforaethol yn cael eu rheoli o fewn y sefydliad, sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

| **PODC 3.3.2/ 2024.07.09** | **Risg Diogelu (Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)** |
|---|---|

Rhoddodd NL ddiweddariad llafar ar y gwaith a wnaed i fynd i'r afael â risg diogelu 1541 ynghylch gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nododd NL bod y newid o ddiweddariad ar bapur i ddiweddariad llafar wedi deillio o ganlyniad i drafodaethau rhwng yr adan Datblygu Sefydliadol a Phobl a QNAHPs i ddod o hyd i ateb gwell ar gyfer mynd i'r afael â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac mae angen amser ychwanegol i asesu'r costau a manylion penodol. Byddai cynllun diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Awst 2024, gyda phapur dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ym mis Hydref.

**Camau Gweithredu: NL**

Dywedodd NL hefyd wrth y Pwyllgor fod y broses o recriwtio swyddog cydymffurfio i gynorthwyo yn y maes hwn i fod i ddigwydd yn fuan, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r archwiliadau ar gyfer pob swydd yn cael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2025 yn unol â'r bwriad.

Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn y diweddariad llafar a ddarparwyd **er sicrwydd**, a **nododd** y bwriad i gyflwyno papur ysgrifenedig yng nghyfarfod mis Hydref.

Heb eu Cadarnhau

| PODC 3.4/ 2024.07.09 | **Fforwm Partneriaeth Lleol - Diweddariad** |
|---|---|

Rhoddodd NL ddiweddariad ar y Fforwm Partneriaeth Lleol; roedd y diweddariad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024.

Tynnodd NL sylw at y cynnydd yn y presenoldeb yn y Fforwm Partneriaeth Lleol diwethaf, ond hefyd yr heriau sy'n ymwneud â phresenoldeb ym Mhwyllgor Ochr y Staff. Nododd NL hefyd y gwaith a gynlluniwyd i friffio cydweithwyr undebau llafur ar ganlyniadau'r arolwg staff drwy'r Fforwm Partneriaeth Lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ffyrdd o weithio, nododd NL yr heriau presennol a bod cyfarfod wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r oedi yng Nghylch Gorchwyl Pwyllgor Ochr y Staff. Nododd NL hefyd y byddai diweddariad ychwanegol ynghylch cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Preifat nesaf y Bwrdd.
**Camau Gweithredu: NL/LB**

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a ddarparwyd a chafodd **sicrwydd** ohono.

| PODC 4/2024.07.09 | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| PODC 4.1/ 2024.07.09 | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024** |

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y penderfyniad i gau'r camau gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu a **chymeradwyodd** y newidiadau i'r dyddiadau cwblhau.

| PODC 4.2/ 2024.07.09 | **Diweddariad ar Bolisïau** |
|---|---|

Rhoddodd LD drosolwg o'r polisïau a ddiweddarwyd i fod yn bolisïau lefel Cymru Gyfan. Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys:

- Mabwysiadu'n ffurfiol y polisi Absenoldeb Arbennig Cymru Gyfan wedi'i ddiweddaru
- Mabwysiadu cynllun rhyddhau'n gynnar o wirfoddol Cymru gyfan yn ffurfiol, a oedd wedi'i gyfuno â'r polisi presennol.
- Cyhoeddi canllawiau newydd ar y fewnrwyd yn ymdrin â rheoli trais ac ymddygiad ymosodol.

Roedd y polisïau wedi bod yn destun ymgynghoriad ac nid oedd unrhyw newidiadau mawr wedi'u gwneud iddynt.

Cytunodd y Pwyllgor i **gymeradwyo** mabwysiadu polisi Absenoldeb Arbennig Cymru Gyfan/newidiadau i'r Cynllun VERS, a chafodd **sicrwydd** bod Canllawiau Cydweithio i Atal Trais GIG Cymru wedi'u cyhoeddi.

| PODC 4.3/ 2024.07.09 | **Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd** |
|---|---|

Heb eu Cadarnhau

Rhoddodd LB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar achlysur pan gymerodd y Cadeirydd gamau gweithredu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl. Roedd hyn er mwyn cymeradwyo Polisi Cymeradwyaeth Feddygol Cymru Gyfan, ac fe'i gwnaed oherwydd y gofyniad i'w gymeradwyo ym mis Mai 2024 a'r amser cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Nododd** y Pwyllgor gamau gweithredu'r Cadeirydd a chafodd **sicrwydd** bod y camau wedi'u cymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.

| | |
|---|---|
| **PODC 4.4/ 2024.07.09** | **Adroddiadau ar y Gymraeg** |
| **PODC 4.4.1/ 2024.07.09** | **Adroddiad Blynyddol Mwy Na Geiriau (2023/24)** |

Rhoddodd RA drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol Mwy Na Geiriau a oedd yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu a nodir yng nghynllun gweithredu pum mlynedd Llywodraeth Cymru ac a nododd heriau ar gyfer y dyfodol. Yna cyflwynir yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru.

Nododd RA yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Gomisiynydd newydd y Gymraeg. Amlygodd RA hefyd y gwaith gwella a wnaed ar wefannau Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr wythnos Gymraeg gyntaf a gynhaliwyd ers 2020 a chyflwyno gwobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn.

Holodd y Pwyllgor a oedd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar y rheng flaen ai peidio. Cytunodd RA i ymchwilio i hyn a rhannu rhagor o fanylion gyda'r aelodau.

**Camau Gweithredu: RA**

Nododd y Pwyllgor y gwaith sydd eisoes ar y gweill i gynyddu sgiliau Cymraeg yr aelodau presennol o staff, a thrafododd sut i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a gaiff eu recriwtio i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Awgrymodd yr aelodau y dylid cynnwys gwybodaeth am gymorth gyda'r iaith Gymraeg mewn pecynnau recriwtio i annog pobl sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg, ond nad ydynt yn rhugl, i wneud cais.

Adolygodd y Pwyllgor y Diweddariad Blynyddol i Mwy Na Geiriau a chytunodd i'w **gymeradwyo**.

| | |
|---|---|
| **PODC 4.4.2/ 2024.07.09** | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg (2023-24)** |

Rhoddodd RA drosolwg o Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg, a oedd yn monitro cydymffurfiaeth a chynnydd tuag at safonau'r Gymraeg ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer 2024/25.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru erbyn 30 Medi bob blwyddyn a byddai Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei hysbysu yn dilyn hynny.

Adolygodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg a chytunodd i'r **gymeradwyo**.

Heb eu Gadarnhau

| | |
|---|---|
| **PODC 5/2024.07.09** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PODC 5.1/ 2024.07.09** | **Adroddiadau Archwilio** |

Rhoddodd LB drosolwg o'r Arolwg Tracio Archwiliadau gan amlygu'r argymhellion archwilio agored o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn.

Nododd LB, er bod y traciwr yn cael ei reoli gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn y dyfodol i gael diweddariadau ar gynnydd ar eitemau a chamau gweithredu ar bynciau penodol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi archwiliad penodol a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai 2024 ynghylch y broses arfarnu ar gyfer ymgynghorwyr iechyd y cyhoedd. Rhoddodd RT ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed, megis cymeradwyo a gweithredu Polisi Cymeradwyaeth Feddygol Cymru Gyfan. Cynlluniwyd cynnydd pellach drwy ddatblygu polisi arfarnu ar wahân ar gyfer cofrestreion UKPHR, gweithredu hyfforddiant arfarnu ar gyfer meddygon ymgynghorol a chynllunio swyddi, yn ogystal â darparu ffeithluniau a chefnogaeth ar gyfer meysydd a oedd yn cael trafferth cyrraedd eu targedau arfarnu.

Diolchodd KY i LB/RT am y diweddariad, a **nododd** y Pwyllgor y diweddariadau ar y Traciwr Archwilio sy'n berthnasol i'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **PODC 6/2024.07.09** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |

**Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd KY i MM am ei holl stiwardiaeth fel Cadeirydd y Pwyllgor dros y tair blynedd diwethaf, ac am y cyfraniadau at waith y Pwyllgor. Adleisiodd NL hyn, a diolchodd i MM am y berthynas waith gydweithredol ag ef a'i dîm drwy gydol ei gyfnod fel Cadeirydd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod at LB.

Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 21 Hydref 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:10

Heb eu Cadarnhau